

## ATGYFODIAD CRIST IESU.

**Emyn:** 563 'I Dduw bo'r gogoniant.'

**Darlleniad:** 1 Corinthiaid 15:1-20.

## DRYSWCH YNGLŶN Â'R ATGYFODIAD.

'Yn awr, os pregethir Crist, ei fod wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, sut y mae rhai yn eich plith yn dweud nad oes atgyfodiad y meirw?' 12. **Beth oedd achos y dryswch?**

a) Dysgeidiaeth y Groegiaid; b) Y Sadiwceaid yn gwadu'r atgyfodiad yn llwyr. **Sut wnaeth Paul ymateb?** Atgoffa'r bobl o wirionedd yr Efengyl. 'I Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau; iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrythurau,' ad. 3.

### 1. PWY FU FARW AC ATGYFODI?

**Iesu Grist.** Yn y Beibl ceir enghreifftiau o bobl yn marw ac yn dod yn ôl yn fyw: mab y wraig o Sunem (2 Brenin. 4), merch Jairus a Lasarus, ond bu farw bob un ohonynt yn eu hamser. Atgyfododd lesu, byth i brofi marwolaeth eto!

### 2. BETH DIGWYDDODD I IESU? Adnod 3.

**a) Bu farw:** Fe'i curwyd a'i boenydio, chwipiwyd ac fe'i croeshoeliwyd, a bu farw. "O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd," A chan ddweud hyn bu farw,<sup>1</sup> Luc 23:46.

b) **Dros ein pechodau:** 'Archollwyd ef am ein troseddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef,' Eseia 53. Dyma weithred o gariad rhyfeddol! Aberth dirprwyol (substitute) oedd lesu, yr Un heb fai, yn marw dros yr euog rai. Aberth iawnol oedd lesu, yn bodloni dicter cyfiawn Y Tad yn erbyn pechodau dynion.

c) **Yn ôl yr Ysgrythurau:** Nid camgymeriad na damwain oedd marwolaeth lesu ar y groes ond cyflawniad o Air Duw. Gallwn gredu'r Beibl! Dyma a ddywed y Beibl am farwolaeth lesu: Matthew 27:50, 'Gwaeddodd lesu drachefn â llef uchel, a bu farw.' Marc 15:37, 'Ond rhoes lesu lef uchel, a bu farw.' Ioan 19:30, 'Dyweddodd lesu, "Gorffennwyd." Gwyrodd ei ben, a rhoi i fyny ei ysbryd.' Actau 2:23, 'Fe groeshoeliasoch chwi ef drwy law estroniaid, a'i ladd.' Mae'r Beibl yn tystio i farwolaeth lesu. **A wnawn ni gredu Gair Duw?**

ch) **Cyfododd:** Daeth y corff a fu farw yn ôl yn fyw, ar y trydydd dydd, (amser pendant – Sul y Pasg). Atgyfodiad corfforol ydoedd yn ogystal ag ysbrydol.

d) **Yn ôl yr Ysgrythurau:** Eto, ceir tystiolaeth gadarn yn y Beibl am atgyfodiad lesu. Mathew 28:9, 'A dyma lesu'n cyfarfod â hwy a dweud, "Henffych well!"' Marc 16:9, 'Ar ôl atgyfodi yn fore ar ddydd cyntaf yr wythnos,

*ymddangosodd yn gyntaf i Fair Magdalen.’ 1 Corinthiaid 15:6, ‘Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o’i ddilynwyr ar unwaith.’ **Awnawn gredu’r Beibl, Gair Duw?***

### **3. SUT Y GWYDDOM FOD MARWOLAETH AC ATGYFODIAD IESU YN WIR A PHAM MAE MOR BWYSIG?**

a) **Fe’i Claddwyd:** Gosodwyd ei gorff mewn bedd gan Joseff o Arimathea. **A fuasent wedi claddu dyn byw?** Mae'r ffaith bod yr union fedd lle osodwyd Iesu yn wag yn tystio iddo atgyfodi.

b) **Ymddangosodd Iesu i lawer sy’n tystio ei fod yn wir wedi cyfodi.** Mae ei atgyfodiad yn ffaith hanesyddol! Ymddangosodd i Fair Magdalen a'r gwragedd eraill, i ddeg o'i ddisgyblion ac yna i'r unarddeg (gan gynnwys Thomas). Gwnaeth Iesu atgyfodedig cyfarfod â dau ar y ffordd i Emaus, i dorf o bum cant a llawer ohonynt dal yn fyw pan ysgrifennwyd yr efengylau. Ac yna i Paul ei hun. Mae'r dystiolaeth am yr atgyfodiad yn niferus. Mae'n wirionedd.

#### **Pam mae ei farwolaeth a'i atgyfodiad mor bwysig?**

a) **Ei farwolaeth:** Bu farw Iesu dros ein pechodau. Pe na fuasai, o ble daw ein maddeuant, ein cyfiawnhad, ein cymod â Duw, a'n gobaith am fywyd newydd?

**Ei Atgyfodiad:** Os na atgyfododd Iesu, yn ôl ein darlleniad, i) Gwag yw ein pregethu (14); ii) Gwag yw ein ffydd (14); iii) Tystion twyllodrus ydym (15); iv) Rydym dal yn ein pechodau (17). Yn ôl efengyl loan, bydd rhaid i bawb gyfodi rhyw ddydd, **ond codi i beth?** ‘*Peidiwch â rhyfeddu at hyn, oherwydd y mae amser yn dod pan fydd pawb sydd yn eu beddau yn clywed ei lais ef ac yn dod allan; bydd y rhai a wnaeth ddaioni yn codi i fywyd, a'r rhai a wnaeth ddrygioni yn codi i gael eu barnu,*’ 5:28. Beth wnawn ddyheu amdano? **Bywyd neu farn?** Mae Iesu, oherwydd iddo farw ac atgyfodi yn cynnig bywyd!

**Gweddi:** O Dad Nefol, diolch mai Duw tragwyddol wyt Ti, a dy fod wedi trefnu bywyd newydd i ni, ond inni dderbyn a chredu yn dy Fab Iesu Grist. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd i lawer o ganlyniad i'r pandemig, ond diolch bod y Pasg yn cynnig llawenydd a gobaith i ni. Diolch bod Iesu wedi marw ar y groes, er ein mwyn ni. Diolch ei fod yn aberth perffaith a digonol, i ddelio gyda'n holl bechodau, a'n gwneud yn blant i Ti. Diolch bod Iesu wedi codi o'r bedd yn fyw, gan goncro marwolaeth a gafael yr Un drwg, er mwyn i ni gael bywyd newydd, bywyd bythol yn y nef rhyw ddydd. Diolch am Iesu, ein hatgyfodiad a'n bywyd, Amen.

**Pasg hapus a dedwydd i bawb!**

## THE RESURRECTION OF JESUS CHRIST.

Hymn: 926 'To God be the glory.'

Reading: 1 Corinthians 15:1-20.

There was confusion with regard to the resurrection: '*Now if Christ is proclaimed as raised from the dead, how can some of you say that there is no resurrection of the dead?*' 12. **What was the cause of this confusion?** a) Greek teaching; b) The Sadducees denied any resurrection. How did Paul respond? He reminded the people the truths of the gospel. '*That Christ died for our sins in accordance with the Scriptures, that he was buried, that he was raised on the third day in accordance with the Scriptures,*' 3.

### 1. WHO DIED, AND WAS RAISED?

**Jesus Christ.** It is recorded in the Bible that there are people who died and returned to life: the son of the woman from Sunem (2 Kings 4), Jairus' daughter and Lazarus. Yet, in time they all experienced death again. Jesus rose from the dead, never to die again!

### 2. WHAT HAPPENED TO JESUS? (Vs.3).

a) **He Died:** He was beaten and punched, whipped and crucified, and he died. "*Father, into your hands I commit*

*my spirit,*" When he said this, he breathed his last,' Luke 23. b) **For our sins:** The prophet Isaiah records, '*He was pierced for our transgressions, he was crushed for our iniquities,*' 53:5. Here is an amazing act of love! Jesus is the perfect sacrifice for our sins, our substitute, the innocent one dying for the guilty. Jesus is the atonement for our sin, facing the Father's wrath in our place.

c) **According to the Scriptures:** Jesus' death was no accident, but the fulfillment of God's Word. We can believe the Bible! This is what the Bible tells us about Jesus' death: **Matthew 27:50:** '*And Jesus cried out again with a loud voice and yielded up his spirit.*' **Mark 15:37:** '*And Jesus uttered a loud cry and breathed his last.*' **John 19:30:** '*Jesus said, "It is finished", and he bowed his head and gave up his spirit.*' **Acts 2:23:** Peter declared on Pentecost Sunday, '*This Jesus, ... you crucified and killed by the hands of lawless men.*' The Bible testifies to the death of Jesus. **Do we believe in the Bible?**

d) **He was Raised:** The body that died, came back to life, on the third day (Easter Sunday). It was both a physical and a spiritual resurrection.

e) **According to the Scriptures:** The testimony for Jesus' resurrection is well documented in the Bible.

**Matthew 28:9:** ‘Suddenly Jesus met them, “Greetings,” he said.’ **Mark 16:9:** ‘Now when he rose early on the first day of the week, he appeared first to Mary Magdalene.’

**1 Corinthians 15:6:** ‘Then he appeared to more than five hundred brothers at one time, most of whom are still alive.’ **Do we believe in the Bible, God’s Word?**

### 3. How do we know that the death and resurrection of Jesus is true?

a) He was Buried: His dead body was placed in a tomb. Would they have buried a body that was alive?

b) He appeared to many: His resurrection is a historical fact! He appeared to Mary Magdalene and other women, to his disciples in ones and twos and sometimes all together. Paul records that he appeared to five hundred people, many of whom were still alive when the gospels were written. Jesus also appeared to Paul (Acts 9). The testimony for Jesus’ resurrection is plentiful.

**Why is it so important to believe in Jesus’ death and resurrection?** a) His Death: Jesus died for our sins. If he has not done so, where is our forgiveness, and how can we be made right with God? How can we gain everlasting life? b) His Resurrection: According to today’s reading, if Jesus

did not rise from the dead: i) Our preaching is empty; ii) Our faith is empty; iii) Our testimony is false; iv) We are still in our sins. According to John’s gospel, ‘*Do not be amazed at this, for a time is coming when all who are in their graves will hear his voice and come out - those who have done good will rise to live, and those who have done evil will rise to be judged,*’ 5:28. **What do we desire? To live or to be judged?** Jesus, because he died and rose again offers us new life. **Do we believe this?**

**Prayers:** Our Father, we give thanks that you receive us into new life, if we receive and believe in Jesus as our Lord and Saviour. It has been a difficult year for many because of the pandemic, yet we give thanks that Easter offers us both joy and hope. We give thanks that Jesus died on Calvary’s cross, for our wrongdoings. Thank you that he is the perfect sacrifice and that his death is sufficient to deal with all our sins. We give thanks that Jesus rose from the grave, alive! He has conquered death and the hold of the evil one and offers us new life in heaven one day. Thank you that Jesus is the resurrection and the life, Amen.

**Happy Easter to you all!**